Cenn@d

CHWEFROR 25 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 261

Dathlu chwarter canrif ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*

Roedd lansio *Caneuon Ffydd* yn 2001 yn benllanw ymdrech sylweddol o gydweithio. Er hynny, nid oedd yn syniad cwbl newydd. Mor bell yn ôl ag 1927, pan gyhoeddwyd *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd*, mynegwyd gobaith y byddai ymddangosiad llyfr at iws dau enwad 'yn foddion i gryfhau'r awydd … am weled holl adrannau Eglwys Crist yng Nghymru yn cytuno i ddarpar a defnyddio un casgliad'. Yn ogystal, cafwyd ymdrech fyrhoedlog ond ofer yn yr 1950au i greu casgliad dethol cydenwadol.

Ond ni wireddwyd y ddelfryd tan yr 1990au, efallai am fod erbyn hynny 'aeddfedrwydd ym mhob enwad' i'w choleddu, chwedl y diweddar Derwyn Morris Jones, ysgrifennydd pwyllgor *Caneuon Ffydd*. Gan fod yr enwadau i gyd am adnewyddu eu casgliadau o emynau a thonau, ond eto heb fod yn awyddus i fynd i'r gost o ailargraffu'r hen lyfrau, daeth pwyllgor o gynrychiolwyr enwadol at ei gilydd i drafod y posibilrwydd o greu llyfr cydenwadol newydd. Penderfynodd y pwyllgor hwn wahodd pwyllgor o unigolion oedd yn dod o'r gwahanol draddodiadau ond heb fod yn gynrychiolwyr swyddogol, i greu'r casgliad. Fel yn achos y rhan fwyaf o fentrau, felly, aeth mwy o amser heibio na'r disgwyl gwreiddiol cyn gallu dwyn y maen i'r wal. Ond, dan arweinyddiaeth ddoeth y diweddar Athro Brynley Roberts, llwyddwyd i gyrraedd y nod o gyhoeddi.

Ar hyd y blynyddoedd cafodd pawb hwyl fawr wrth drafod y 'fricsen' a gynhyrchwyd yn 2001, gyda rhai'n awgrymu bod y llyfr tonau yn fwy addas i gadw'r drws ar agor nag i fod yn llyfr canu. Ond mae'n deg cofio hefyd fod y dasg yn un sylweddol, yn 'antur enbyd' yng ngeiriau'r cadeirydd, yn bennaf am nad oedd man cychwyn cyffredin i bawb.

O amgylch y bwrdd roedd pobl pedwar traddodiad o leiaf: Annibynwyr y *Caniedydd*, Bedyddwyr y *Llawlyfr Moliant*, Eglwyswyr *Emynau'r Eglwys* ac *Emynau'r Llan*, a Phresbyteriaid a Wesleaid y



Llyfr Emynau a Thonau, oedd ei hun yn gasgliad cydenwadol. Roedd gan bob un o'r enwadau lyfrau eraill heblaw eu 'prif lyfrau', oedd yn cael eu defnyddio'n gyson, ac roedd angen ceisio dethol o blith cynnwys y rheini, yn ogystal â chwilio am ddeunydd o gasgliadau eraill a deunydd newydd nad oedd wedi ei gyhoeddi o'r blaen. Roedd yn rhaid hefyd ystyried yr amrywiol ffurfiau o ran geiriau a phenillion oedd gan y gwahanol enwadau, a phenderfynu pa fersiwn a chynganeddiad o dôn i'w defnyddio.

Pan ddaeth y llyfr i ddwylo'r cynulleidfaoedd, roedd llawer yn siomedig o weld penillion oedd yn ddieithr iddynt a thôn nad oeddynt wedi arfer â hi. Ond cwbl amhosibl fyddai ceisio ailadrodd pob ffurf o emyn a phob priodas o emyn a thôn. Ac fel pob pwyllgor llyfr emynau a fu erioed, cafodd y pwyllgor hwn ei siâr o feirniadaeth am ei benderfyniadau, yn enwedig am fethu cynnwys rhyw emyn neu dôn arbennig.

Rhan o fwriad *Caneuon Ffydd* oedd ceisio adlewyrchu treftadaeth emynyddol Cymru drwy gynnwys dogn helaeth o'r emynau a'r tonau sy'n adnabyddus i bawb. Dyma'r emynau y byddai pobl yn disgwyl eu gweld mewn casgliad o emynau Cymraeg, hyd yn oed os yw rhai ohonynt erbyn heddiw y tu hwnt i gyrraedd cynulleidfa'r Sul ac yn gyfyngedig i gymanfaoedd canu achlysurol. Ceisiwyd hefyd ddethol emynau o waith emynwyr diweddar ac adlewyrchu traddodiadau eraill o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys siantiau Taizé a chytganau amrywiol.

Yn anochel, efallai, dim ond cyfran o'r pethau newydd hyn sydd wedi apelio at gynulleidfaoedd yn gyffredinol, a gwell gan lawer yw pwyso ar y cyfarwydd a'r diogel. Nid bwriad y pwyllgor, fodd bynnag, oedd llorio cynulleidfaoedd â thoreth o ddeunydd anghyfarwydd, ond cynnig amrywiaeth. A dyfynnu Derwyn Morris Jones eto, 'darparu deunydd i ni addoli Duw a dyrchafu'n calonnau at yr Arglwydd oedd ein gorchwyl pennaf.' I'r graddau y mae cynulleidfaoedd o bob enwad yn defnyddio'r casgliad, a bod gwerthiant pur gyson ar gopïau o hyd, gellir dweud ei fod wedi llwyddo yn ei amcan sylfaenol, beth bynnag ei ddiffygion.

Ac ar ben pum mlynedd ar hugain, a nifer o aelodau'r pwyllgor a luniodd y llyfr bellach wedi ein gadael, beth sydd i'w ddweud? Barn Elfed oedd mai chwarter canrif oedd oes llyfr emynau, er bod nifer o'r llyfrau enwadol a fu gennym yn y gorffennol wedi byw dipyn yn hwy na hynny. Mae oes y llyfr traddodiadol yn prysur fynd heibio, a cheir heddiw ddefnydd cynyddol o emynau ar sgrin. O ddilyn y llwybr yna, gall cynulleidfaoedd wneud eu dewis eu hunain, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul, er enghraifft, heb fod wedi eu cyfyngu i lyfr printiedig. Eto i gyd, os bydd awydd yn codi o fewn yr eglwysi i baratoi casgliad print newydd yn y dyfodol, gobeithio y gellir dilyn esiampl *Caneuon Ffydd* o gydweithio ar draws ffiniau enwadol a chreu adnodd at ddefnydd pawb. Byddai hynny'n adlewyrchu un o amcanion gwreiddiol y prosiect, sef dathlu'r etifeddiaeth emynyddol gyfoethog sy'n perthyn inni i gyd.

Rhidian Griffiths
Aberystwyth

Cofio'r Parchedig Jesse Jackson (1941–2026) Tudalen 3

O'r byd a'r betws Tudalen 4

Gwaith yr elusen Gristnogol Home for Good Tudalen 6

Adnoddau i gefnogi *Caneuon Ffydd*

Mae 25 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, a dros y cyfnod hwnnw mae'r casgliad o dros 800 o emynau wedi ennill ei le fel y gyfrol Gymraeg safonol o emynau ar draws yr enwadau. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddwyd nifer o adnoddau ychwanegol i hyrwyddo a chefnogi'r gyfrol.

Mae gwefan www.gobaith.cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o'r emynau a geir yn y gyfrol, ac yno mae modd cael cyflwyniad PowerPoint neu gopi electronig o'r geiriau. Yn ddiweddar ychwanegwyd tri mynegai at y wefan, sef mynegai themâu, mynegai ysgrythurol a mynegai i eiriau cyntaf pob pennill. Ar y wefan hefyd ceir rhestr gynhwysfawr o emynau dwyieithog, gan nodi'r emynau yn *Caneuon Ffydd* sydd hefyd ar gael yn Saesneg.

Ar wefan http://cristnogaeth.cymru/emynau-a-chaneuon/ mae cannoedd o donau ar ffurf ffeiliau mp3, sy'n dilyn trefn *Caneuon Ffydd*. Trwy nodi rhif yr emyn, ceir dewis o donau addas i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Myfyrdod Gŵyl Ddewi

Darllen: Mathew 5:14–15

Mae rhai pobl wrth eu boddau yng nghwmni plant. Dyna pam fod cynifer o bobl yn mynd ati i ddilyn cwrs i fod yn athrawon – os hyfforddi hefyd. Mae rhai'n dweud na fedrwch chi ddim hyfforddi neb i fod yn athro neu athrawes. Mae hi'n ddawn gynhenid; rydych chi'n cael eich geni i fod yn athro. Beth bynnag am hynny, mae plant yn ddiddorol.

Gofyn cwestiwn digon diflas wnes i i griw ohonyn nhw'r diwrnod o'r blaen, 'Be ydych chi am fod ar ôl tyfu i fyny?' A dyma un ohonyn nhw'n ateb yn syth fel bwled – 'sant'. Mi ges i dipyn o sioc, a dweud y gwir. Atebion gwahanol ges i gan y lleill – y bechgyn eisiau bod yn bêl-droedwyr, ambell un o'r genethod eisiau bod yn nyrs, un eisiau bod yn gantor fel Bryn Terfel ac un arall eisiau gweithio yn B&Q. Ond meddyliwch, un eisiau bod yn sant! Ac mae'n siŵr fod gan bob un ohonon ni syniad pur dda beth ydi sant – dyn (fel arfer) duwiol, sanctaidd yr olwg a gwawl o gwmpas ei ben. Ond ai dyma gysyniad y Testament Newydd o beth ydi sant? Roedd Paul yn ysgrifennu ei lythyrau at y 'saint' yn y lle a'r lle. Go brin mai ysgrifennu at bobl fel hyn oedd Paul yn Philipi, Corinth a lleoedd tebyg yn y ganrif gyntaf.

Wel, beth ydi'r gofynion, neu, a bod yn fwy cyfoes, beth ydi'r cymwysterau i fod yn sant? Mae sant yn berson gwahanol, sy'n byw ei fywyd (neu ei bywyd) mewn perthynas agos ag Iesu Grist. Person da, felly. Ie, ond nid yn unig berson da sy'n gwneud gweithredoedd da, ond person sy'n byw bywyd gwahanol oherwydd ei gred – oherwydd ei fod yn credu yn rhywun arbennig. Mi glywch chi ambell un yn dweud peth fel hyn, 'Mi ydw i gystal Cristion â'r gorau, ond fydda i byth yn mynd i gapel nac eglwys'. Dweud wnân nhw eu bod yn bobl dda. Ond mae bod yn Gristion yn wahanol. Nid mater o fod 'cystal â'r gorau' ydyw. Cred ydi'r peth cyntaf, gyda gweithredoedd da yn deillio o hynny. Y gred yn Iesu Grist sy'n hybu'r gweithredu. Ond i'r sant, nid rhywbeth i'w gadw iddo'i hun yw daioni ond rhywbeth i'w rannu ag eraill. Mynegbost sy'n dangos Iesu Grist ydi sant. Pan aethpwyd â chriw o blant i weld eglwys y plwyf, roedd un o'r genethod wedi dotio at y ffenestri lliw. Ar ôl cyfnod o ryfeddu at y lluniau a'r lliwiau a'r haul yn disgleirio drwyddynt, dyma hi'n gofyn i'w hathrawes, 'Lluniau pwy ydi'r rheina yn y ffenestri?' 'Hen seintiau ydi'r rheina,' meddai'r athrawes. 'Edrychwch,' meddai'r fechan, 'mae goleuni'r haul yn dod drwyddyn nhw ar fy nillad i ac ar eich wyneb chithau.'

Rhywun felly ydi sant – rhywun sy'n adlewyrchu'r lliwiau gorau, y pethau gorau. Mae'n adlewyrchu'r hwn y mae'n cred ynddo: 'Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd' (Mathew 5:16).

Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi, un ac oll.

(*Allan o* Myfyrdodau Cyhoeddus *gan Huw John Hughes*)

Cofio'r Parchedig Jesse Jackson (1941–2026)

Llun: CC BY 2.0

Mae'n anodd mesur maint cyfraniad y Parchedig Jesse Jackson i hanes yr Unol Daleithiau ac i'r frwydr ehangach o geisio cyfiawnder ledled y byd. Fel gweinidog Bedyddiedig, ymgyrchydd ac arweinydd hawliau sifil, bu'n llais pwerus a phroffwydol dros y rhai oedd wedi'u heithrio, wedi'u hanwybyddu neu wedi'u gormesu gan gyfundrefn wleidyddol y wlad. Trwy ei fywyd cyhoeddus o wasanaethu a lobïo, a'i ymroddiad diflino dros herio'r gyfundrefn, daeth yn symbol o obaith a dewrder i gynifer yn y wlad.

Ganwyd Jesse Louis Jackson ar 8 Hydref 1941 yn Greenville, De Carolina, mewn cyfnod lle roedd yna ymwahanu hiliol dwfn yn ne'r Unol Daleithiau. Cafodd ei fagu gan ei fam, Helen Burns, a'i lystad, Charles Henry Jackson, a roddodd ei enw iddo. O ddyddiau cynnar, bu'n dyst i anghydraddoldeb a hiliaeth – profiad a daniodd ei angerdd i sicrhau cyfiawnder a thegwch i'w bobl drwy gydol ei fywyd.

Roedd yn ddisgybl galluog ac yn athletwr dawnus. Mynychodd goleg y North Carolina A&T State University ar ysgoloriaeth bêl-droed Americanaidd, gan raddio mewn cymdeithaseg. Yn ystod ei gyfnod yno daeth yn weithgar yn y mudiad hawliau sifil, gan gymryd rhan mewn protestiadau di-drais a galwadau am ddiddymu gwahaniaethu ar sail hil a lliw croen. Yn ddiweddarach, astudiodd ddiwinyddiaeth yng ngholeg diwinyddol Bedyddiedig y Chicago Theological Seminary, gan gyfuno'i alwad ysbrydol â'i angerdd dros weithredu cymdeithasol. Priododd Jacqueline Brown yn 1962, a chawsant bump o blant.

Yn y 1960au, daeth Jackson yn gydymaith ac yn ffrind agos i'r Parchedig Ddr Martin Luther King Jr. Bu'n rhan o'r Southern Christian Leadership Conference (SCLC) ac yn weithgar yn ymgyrchoedd mawr y cyfnod, gan gynnwys ymgyrchoedd dros hawliau pleidleisio a chyfiawnder economaidd. Roedd wrth ochr Martin Luther King yn Memphis yn 1968 pan gafodd ei lofruddio – digwyddiad a effeithiodd yn ddwfn arno ac a gadarnhaodd ei benderfyniad i barhau â'r frwydr.

Yn dilyn marwolaeth Martin Luther King, sefydlodd Jesse Jackson fudiad Operation PUSH (People United to Save Humanity) yn Chicago yn 1971. Nod y mudiad oedd rhoi mwy o rym economaidd i bobl dduon, ehangu eu cyfleoedd addysgol, a chreu partneriaethau â busnesau i gynyddu cyflogaeth a buddsoddiad mewn cymunedau dan anfantais. Yn ddiweddarach, unwyd Operation PUSH â'r Rainbow Coalition gan greu'r Rainbow PUSH Coalition – mudiad oedd yn pwysleisio undod rhwng pobl o wahanol hil, crefydd a chefndiroedd economaidd a diwylliannol.

Daeth Jesse Jackson yn ffigwr cenedlaethol amlwg yn y 1980au pan benderfynodd ymgeisio am enwebiad arlywyddol y Blaid Ddemocrataidd. Yn 1984, ef oedd un o'r ymgeiswyr mwyaf adnabyddus, ac yn 1988 ar ei ail ymgais, gwnaeth ymdrech arwrol, gan ennill miliynau o bleidleisiau. Er nad enillodd yr enwebiad, bu ei ymdrech yn fodd i ysbrydoli ac annog cenhedlaeth newydd o arweinwyr gwleidyddol croenddu. Roedd ei ymgyrchu'n canolbwyntio ar gofrestru pleidleiswyr newydd, yn enwedig ymhlith cymunedau oedd wedi'u heithrio a'u hanwybyddu.

Yn ogystal â'i waith yn America, bu Jesse Jackson yn weithgar ar y llwyfan rhyngwladol. Teithiodd i wledydd megis Ciwba, Syria a De Affrica, gan geisio rhyddhau carcharorion Americanaidd neu hyrwyddo trafodaeth heddwch mewn cyfnodau o densiwn gwleidyddol. Er bod ei ymdrechion weithiau'n ddadleuol, dangosodd ei fod yn barod i weithredu'r tu hwnt i ffyrdd traddodiadol, er mwyn ceisio canlyniadau cyfiawn a theg. Fel llawer o arweinwyr cyhoeddus, wynebodd heriau personol a beirniadaeth dros y blynyddoedd, ond parhaodd i fod yn weithgar yn gyhoeddus, hyd yn oed wrth wynebu problemau iechyd yn ei flynyddoedd olaf, gan gynnwys diagnosis o glefyd Parkinson yn 2017.

Trwy gydol ei fywyd, bu Jesse Jackson yn bregethwr Bedyddiedig grymus ac yn areithiwr dawnus, gyda'i arddull traethu'n danbaid ac angerddol, yn llawn ymadroddion cofiadwy. Ond y tu hwnt i'r geiriau, fe'i cofir am ei ymroddiad a'i egni diflino i weithredu er mwyn gwneud gwahaniaeth. O strydoedd y De i lwyfannau gwleidyddol Washington, bu'n llais cyson dros gydraddoldeb hiliol, cyfiawnder economaidd a hawliau dynol.

Fe'i cofir yn bennaf fel un a ymatebodd i angen mawr ei gyfnod. Ganwyd ef mewn cyfnod pan oedd gwahaniaethu hiliol yn dal yn gyfreithlon mewn sawl talaith. Tyfodd i fyny mewn cymdeithas lle'r oedd cyfraith a threfn yn atal pobl dduon rhag cael mynediad cyfartal at addysg, gwaith a hawliau sifil sylfaenol. Ond yn hytrach na chael ei atal gan yr amgylchiadau hynny, dewisodd sefyll yn gadarn, gan herio'r gyfundrefn. Roedd ei ffydd Gristnogol yn sylfaen i'w genhadaeth, ac roedd ei lais pregethu'n cyfuno angerdd moesol â galwad eglur am weithredu. Roedd ganddo ddawn arbennig i gyfathrebu â phobl o bob oed a phob cefndir, gan droi rhwystredigaeth yn obaith a dicter yn egni cadarnhaol.

Roedd ei neges yn glir: nad oedd y frwydr dros hawliau sifil yn ymwneud â hil yn unig, ond hefyd â thlodi, addysg, cyflogaeth a mynediad at gyfleoedd teg i bawb yn ddiwahân. Llwyddodd i godi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder, gan ddylanwadu ar bolisïau ar lefel leol a chenedlaethol. Roedd yn credu'n gryf mewn pontio rhaniadau – boed yn rhaniadau hiliol, gwleidyddol neu ryngwladol. Yn fwy na dim, mae ei etifeddiaeth yn ein hatgoffa o rym llais unigolyn sy'n barod i sefyll dros eraill. Dysgodd ni fod ffydd a gweithredu yn gallu cyd-fyw; bod pregethu heb fod yn barod i weithredu yn ddiystyr, a bod gweithredu heb sail foesol iddo yn ofer. Drwy ei fywyd, dangosodd sut y gall cariad at gymuned droi'n symudiad cenedlaethol.

Cofiwn amdano nid yn unig fel arweinydd crefyddol hanesyddol, ond fel atgof byw o'r hyn sy'n bosibl pan fydd dewrder yn cwrdd â ffydd, a phan fydd breuddwyd yn cael ei chefnogi gan weithredu di-baid. Gobeithio bod ei etifeddiaeth yn her i bob un ohonom sefyll dros yr hyn sy'n wir a chyfiawn, hyd yn oed pan fo'r ffordd yn hir, a chredu, er gwaethaf popeth, fod gobaith bob amser yn gryfach nag ofn.

Aled Davies

O'r byd a'r betws

Y Grawys – cyfnod y cyffesu

Mae dydd Mercher Lludw, sef 18 Chwefror eleni, yn dynodi dechrau cyfnod y Grawys, gan gymell aelodau'r eglwysi i ymbaratoi i ddathlu'r Pasg. Mae'n siŵr bod y Catholigion a'r Anglicaniaid yn rhoi mwy o sylw i hyn na'r Anghydffurfwyr, er y bydd yna oedfaon a digwyddiadau yn enw sawl Cyngor Eglwysi lleol yn nodi'r cyfnod.

Ddegawdau yn ôl, bu Cyngor Eglwysi Caerffili yn cynnal cinio caws a chawl yn ystod y Grawys, gan wahodd rhoddion i gefnogi Cymorth Cristnogol. Ac mae'n debyg fod sawl cylch cydenwadol yn nodi'r cyfnod mewn digwyddiadau tebyg. Ceir arweiniad drwy law Cytûn neu fudiad Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) sy'n fframwaith ar gyfer cynnal oedfaon. Ni allwn ond cymeradwyo'r adnoddau hyn, gan gymell eglwysi lleol i ddod ynghyd i gydaddoli a chydgymdeithasu wrth gerdded y llwybr i gyfeiriad y Pasg.

Un gair sy'n plethu'r cyfan yw'r gair 'cyffes', sydd â ddwy wedd bwysig iddo. Bydd sawl salm yn cynnig arweiniad i gyffes, ac yn y Llythyr at y Rhufeiniaid 10:8b–13 ac 1 Ioan 1:5–10, cawn flas ar y ddwy wedd. Bydd y naill yn cydnabod ffaeleddau dynol, tra bydd y llall yn nodi mai braint pob Cristion yw arddel Iesu yn gyhoeddus fel Arglwydd a Gwaredwr.

Pa fath o gyffes a wnawn ni yn ein gweddïau personol a'n defosiwn eglwysig? Mae'r wasg a'r cyfryngau'n manteisio ar bob cyfle i nodi gwendidau pobl eraill, yn arbennig y sawl sydd yn llygad y cyhoedd. Cafodd Andrew, brawd y brenin Siarl III, lawer o sylw ac anogaeth i gyflwyno tystiolaeth gerbron llysoedd yn yr Unol Daleithiau yn egluro'r modd y mae ei enw'n ymddangos mewn e-byst a rannodd gyda Jeffrey Epstein a Ghislaine Maxwell. Mae ei stori'n dal i ddatblygu yn dilyn ei arestio, a diau cawn fwy o'i hanes dros yr wythnosau nesaf.

Enwyd llawer o bobl cyhoeddus yn yr e-byst hynny, ac mae perygl i'r wasg fanteisio ar eu cyfleoedd i dynnu pobl drwy'r drain, heb fod â gwir ddiddordeb yn y merched a ddioddefodd gam ac anghyfiawnder. Mae'r wasg yn manteisio ar sefyllfaoedd i gyflwyno hanesion o ddrwgweithredu neu dor cyfraith, er mwyn denu pobl i brynu eu cynnyrch. Onid yw'n nodwedd ynom i guddio ein gwendidau ein hunain, ond cael blas ar bwyntio bys hyd at lambastio pobl eraill, pa un a ydynt yn euog o'r cyhuddiadau neu beidio? Roedd achlysur crogi fel achlysur croeshoelio yn denu tyrfa i wylio'r olygfa anwaraidd, ac nid yw'r natur ddynol yn fwy gwaraidd nawr nag yr oedd ganrifoedd yn ôl.

Beth yw ein cyffesion ni? Fel y Mab Afradlon yn Luc 15, gallwn oll gyfaddef: 'Pechais o flaen Duw ac o'th flaen dithau', etc. gan dderbyn ein bod yn hunanol ac yn haerllug, yn ddifeddwl a rhyfygus. Oni fyddwn yn euog o'r ystod eang sy'n cael ei nodi yn yr ysgrythur, ac esgusodi ein hunain ein bod yn bobl dda yn y bôn? Aeth ein hieithwedd ddefosiynol yn debyg iawn i feddylfryd y Phariseaid, gan ein canmol ein hunain, heb roi fawr o ystyriaeth i'n hannheilyngdod, ein bydolrwydd a'n pechod sylfaenol. Mae cyffes yn gyfaddefiad o'n ffaeleddau a'n cyflwr, ac o'n hangen am drugaredd Duw. Mae'n gatharsis moesol ac ysbrydol, yn gyfaddefiad o'n cyflwr, ac yn eiriolaeth am faddeuant Duw. Pwy all fentro i Olgotha yn fympwyol a hunanbwysig?

Mae cyffes hefyd yn ddatganiad o ffydd, fel y clywn Paul yn dweud ar ddiwedd Rhufeiniaid 8:38: 'Yr wyf yn gwbl sicr na all ... ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.' Mae'r Grawys yn gyfle i wneud cyffes o'n ffydd yn gyhoeddus gerbron teulu, cymdogaeth a'r byd. Nid oes gan lys barn ddiddordeb mewn rhagdybiaethau neu rannu safbwyntiau pobl eraill. 'Dyma fy stori, dyma fy nghân' yw'r hyn sydd gennym i'w rannu – nid meimio i rywbeth plastigaidd a recordiwyd mewn stiwdio gerdd, nid datganiad sydd fel perfformiad eisteddfodol wedi ei berffeithio, ond gair o'r galon.

Mae cyfnod y Grawys yn gyfle i ni ystyried o ddifrif beth yw'r profiad sydd gennym o Dduw, yr hwn sy'n cyfeirio ein camre ac yn sylfaen ein crebwyll moesol. Onid oes perygl i ni gywasgu Duw i fesur ein dynoldeb ni, a glastwreiddio'i eiriau i gyfyngiadau ein crebwyll? Ef yw'r anadl yn ein ffroenau, cyfeiriad ein taith a sylwedd ein hymwneud ag eraill. Gallwn gerdded i gyfeiriad Golgotha yn wylaidd a gostyngedig, gan wybod bod inni'r fraint o ryfeddu uwch pob rhyfeddod at fedd gwag, a chwmni'r hwn sy'n drech na marwolaeth byd a'n marweidd-dra ein hunain.

Yn ystod Grawys 2026, beth am gydnabod ein dihidrwydd wrth feddwl am y diniwed, fel y merched y bu i Epstein a Maxwell eu defnyddio'n ddigywilydd, neu'r plant sydd wedi dioddef hyd at farwolaeth yn Gaza ac Wcráin, a ninnau heb ddweud y nesaf peth i ddim o'u plaid? Yn yr un modd, rhannwn ein profiad o Dduw yng Nghrist â thri pherson sy'n ddieithr i'r profiad ysbrydol o Iesu, gan ddweud beth yw ein stori ni.

Denzil I. John

S4C

S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 1 Mawrth, am 7:30yh – Gŵyl Ddewi
Rhaglen arbennig i ddathlu gŵyl ein nawddsant o Gadeirlan Tyddewi yng nghwmni Nia Roberts – cyfle i ymfalchïo yn ein treftadaeth grefyddol a'n hunaniaeth genedlaethol ym mam eglwys Cristnogaeth yng Nghymru. Cawn fwynhau gwledd o emynau, darlleniadau arbennig, perfformiadau gan Trystan Llyr Griffiths, Gwawr Edwards, Rose Datta a Chôr Ysgol Gerdd Ceredigon. Cyflwynir y fendith gan Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 1 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng nghwmni Rosa Hunt

Oedfa Radio Cymru
Sul, 1 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon
Oedfa dan arweiniad Rhys Llwyd

Y GRAWYS – WYTHNOS 2

Y gobaith o berthyn

Darlleniad

Jeremeia 29:11

Myfyrdod

Credwn nad yw Newyddion Da ein ffydd wedi'u bwriadu ar gyfer Cristnogion yn unig a bod cariad Duw yn cael ei ymestyn i bawb, a'u bod wedi'u gwneud yn ei ddelwedd ac yn debyg iddo. Cydnabyddwn hefyd y gall ein gweithredoedd fod yn brin o'r weledigaeth hon, gan osod amodau ar y ffordd rydym yn derbyn pobl neu'n cyfleu iddynt fod yn rhaid iddyn nhw fod yn debyg i ni neu wneud pethau ein ffordd ni i fod yn rhan o'n cymuned.

Thema gyson yn ein gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn yw'r angen i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhwng croeso a pherthyn. Yn aml, bydd eglwysi, ac yn iawn o ran hynny, yn anelu at fod yn lleoedd o groeso i bawb, gan dynnu ar yr arfer o letygarwch a welwn wedi'i fodelu trwy gydol yr Ysgrythur. Yn rhy aml, fodd bynnag, gallwn fodloni ar gynnig croeso yn unig gan beidio â gofyn y cwestiynau dyfnach am yr hyn y byddai'n ei gymryd i greu'r amodau lle gallai pawb deimlo'u bod yn gwir berthyn. Efallai bydd gofyn i rai aelodau o'r gymuned wneud lle ar gyfer newid, neu hyd yn oed roi'r gorau i'r pethau maen nhw'n eu hystyried sy'n bwysig, er mwyn caniatáu i'r gymuned dyfu a chroesawu pobl o gefndiroedd amrywiol. Yn ddiamau, gall hyn fod yn anodd, yn enwedig i'r rhai sydd wedi buddsoddi llawer yn y gwaith o adeiladu'r gymuned. Heb greu'r lle hwn, ni allwn archwilio'r posibiliadau newydd y gall pobl â hunaniaethau a safbwyntiau eraill ddod gyda nhw.

O fewn ein cymunedau eglwysig mae yna lawer o bobl sy'n cael trafferth gyda'u hymdeimlad o berthyn. Efallai y byddan nhw'n teimlo fel pe baent wedi cael croeso ar y dechrau sy'n amodol ar eu gallu i newid ac addasu, neu na fydden nhw'n gallu bod yn arweinwyr. Efallai y bydd eraill yn teimlo nad yw eu cyfraniadau, a oedd unwaith yn bwysig, yn cael eu gwerthfawrogi mwyach, a bod y newidiadau a ofynnir ohonyn nhw yn rhy fawr neu'n rhy gostus. Yn aml, does dim atebion hawdd i'r heriau hyn, ond gall ymrwymiad i wrando'n ddewr helpu pobl i deimlo'u bod nhw'n cael eu gweld a'u clywed wrth i ni chwilio am y ffordd orau o gysoni anghenion gwahanol, gan gadw o'n blaenau weledigaeth Duw y byddai gan bawb obaith ar gyfer y dyfodol. Nid yw bod yn onest ynglŷn â'r brwydrau mewnol hyn yn gwanhau rôl arweinyddiaeth yr Eglwys. Mae'n ein helpu ni i ganfod a dangos empathi ag eraill sy'n ymdopi â'r tensiynau hyn mewn rhannau eraill o gymdeithas, gan gynnwys yr arweinwyr gwleidyddol sy'n cael eu galw i gynrychioli buddiannau a dyheadau amrywiol er lles cyffredin.

Wrth geisio cynnig gweledigaeth lawn gobaith ar gyfer popeth sy'n ymestyn y tu hwnt i'n cymunedau eglwysig, rydym hefyd yn cael ein galw i ystyried anghenion y rhai a allai deimlo bod yr Eglwys wedi cyfrannu at y rhwystrau rhag perthyn maen nhw wedi'u profi. Yn hanesyddol, mae Cristnogaeth wedi cael lle breintiedig ym Mhrydain ac Iwerddon. Heddiw, gwelwyd dirywiad yn nylanwad yr eglwysi tra mae Cristnogion wedi cymryd llawer o gamau cadarnhaol i gofleidio mannau cyhoeddus mwy amrywiol a lluosog. Ond gallwn fod yn ddall o hyd i weld i ba raddau y gall ein dylanwad ddieithrio rhai eraill wrth i ni lunio'r diwylliant.

Gwyddom hefyd nad yw pob safbwynt yn gyson â gweledigaeth o berthyn i bawb. Mae angen gwrthsefyll agweddau ac ymddygiad sy'n ymosod, yn bychanu ac yn dad-ddyneiddio pobl â gwirionedd a chyfiawnder. I Gristnogion, mae'r Ysgrythur yn rhoi sylfeini cadarn i ni ar gyfer y weledigaeth amgen hon, a gynigir yn ysbryd cariad. Mae hefyd yn ein herio i siarad a gweithredu i fynd i'r afael â strwythurau anghyfiawn sy'n rhwystro ymdeimlad pobl o berthyn. Mae ein gallu i gymryd rhan yn y gwaith hwn yn cael ei gryfhau pan fyddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn ein harweinyddiaeth fel bod ein sgyrsiau a'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd yn cael eu cyfoethogi gan wahanol safbwyntiau.

Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Allwch chi feddwl am amser pan wnaethoch chi brofi argyfwng o ran perthyn, boed yn yr eglwys neu mewn cyd-destun gwahanol? Beth oedd rhai o'r ffactorau a gyfrannodd at hynny? Allwch chi feddwl am unrhyw gamau gweithredu a allai fod wedi eich helpu chi neu a wnaeth eich helpu yn y sefyllfa honno?
- Pan fyddwch chi'n meddwl am y rhai sy'n cael eu gwthio i'r cyrion yn eich cyd-destun lleol, am bwy ydych chi'n poeni fwyaf? Beth ydych chi'n ei ystyried yw eu hanghenion?
- Ble welwch chi arwyddion o wrthdaro ac argyfwng ar sail hunaniaeth yn eich cymuned leol? Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hyn? Pa ffactorau sy'n gwaethygu'r problemau hyn?

Gweithredu

- Adolygwch rai eitemau newyddion lleol. Beth, os rhywbeth, sy'n cael ei gyfleu ynghylch pwy sy'n perthyn, a phwy sydd wedi'i eithrio yn eich cymuned?
- Dewch o hyd i bost o'r cyfryngau cymdeithasol neu ddarn barn gan berson rydych yn anghytuno ag ef / â hi. Ystyriwch a allwch chi nodi unrhyw bwyntiau cyswllt neu werthoedd a rennir a allai eich helpu i gysylltu â'r rhai sy'n arddel y safbwyntiau hyn mewn ffordd sy'n cynnal urddas pawb.
- Nodwch grŵp sy'n gwneud gwaith cadarnhaol i fynd i'r afael â gwrthdaro ar sail hunaniaeth yn eich ardal. Sut allech chi gefnogi ac annog eu gwaith?

Gweddi

Duw pawb,
Helpa ni i ddod o hyd i ffordd o fod yn adeiladwyr pontydd,
yn enwedig lle mae'r bylchau rhwng pobl yn ymddangos yn anobeithiol o lydan.
Rho'r dewrder i ni wynebu ein dallineb i rai pethau
ac ymrwymo i'r sgyrsiau anghyfforddus am dderbyn gwahaniaethau
i helpu pawb i berthyn.
Bydd yn agos at bawb sy'n brwydro â'r teimlad nad ydyn nhw'n perthyn.
Helpa nhw i ganfod gobaith o gysylltu drwy estyn allan yn dosturiol.
Yn dy drugaredd iachâ'r rhai y mae eu brwydrau â hunaniaeth a pherthyn
wedi eu tywys ar hyd llwybr casineb a thrais.
Gweddïwn y bydd pawb sy'n teimlo ar goll yn dod o hyd i gartref ynot ti. Amen.

Gwaith yr elusen Gristnogol Home for Good

Mae gan yr elusen Home for Good weledigaeth glir i geisio dod o hyd i gartref diogel ar gyfer pob plentyn sydd angen hynny yn y Deyrnas Unedig drwy faethu, mabwysiadu, gan gynnig llety â chymorth i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.

Nod Home for Good a Safe Families yw creu cymdeithas lle nad oes unrhyw deulu'n teimlo'u bod ar eu pennau eu hunain a bod gan bob plentyn gartref lle gall ffynnu. Credant fod yr Eglwys yn ganolog i'r weledigaeth honno. Drwy gydlynu a darparu adnoddau i rwydwaith cynyddol o bobl, gan gynnwys eglwysi a mudiadau lleol ledled y Deyrnas Unedig, maent yn codi ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Maent yn ysbrydoli unigolion i ystyried maethu, mabwysiadu a chynnig llety a chymorth ymarferol, gan arfogi eglwysi i ddeall a chynnig cefnogaeth.

Bob chwarter awr, o fewn y Deyrnas Unedig, mae plentyn yn cael ei gyflwyno i ofal y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd llawer ohonynt wedi dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth, ac wedi profi trawma a cholled. Mae pawb yn haeddu cael cartref lle cânt eu caru, eu meithrin a'u galluogi i ffynnu, boed hynny drwy ofal maeth tymor byr neu dymor hir, gyda theulu newydd i'w mabwysiadu, neu drwy lety â chymorth. Eleni, bydd tua 38,000 o blant angen gofal o'r math hwn yn y Deyrnas Unedig – sef tua 100 o blant bob dydd. Amcangyfrifir bod angen dros 7,200 o ofalwyr maeth newydd i ddiwallu'r angen dirfawr hwn. Tybed allech chi helpu i ddod o hyd iddyn nhw?

Mae Home for Good yn credu fod yr Eglwys mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y cartref cariadus sydd ei angen arnynt. Mae'r anogaeth Feiblaidd i ofalu am eraill, i estyn croeso a cheisio cyfiawnder yn ein cymell i weithredu. Eu hanogaeth i ni yw hyn: 'Drwy agor ein cartrefi a'n calonnau i blant a phobl ifanc mewn gofal, a thrwy i'n heglwysi ddod yn gymunedau croesawgar a chefnogol i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac i'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt, gallwn wneud gwahaniaeth trawsnewidiol.'

Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan: https://homeforgood.org.uk

Dyma stori faethu gan Angharad a Llŷr …

Nid yw stori maethu Angharad a Llŷr yn un anarferol – mae eu taith o alar, maethu fel teulu, a bod yn rhan o grŵp cymorth yn cael ei rhannu gan lawer. Angharad sy'n adrodd eu stori.

Dechreuodd fy nhaith pan oeddwn yn ifanc iawn, â theimlad cryf o fod eisiau helpu pobl eraill ynof. Pan oeddwn yn tyfu i fyny, roedd ein cartref yn lle prysur – bob amser yn llawn pobl a llwyth o blant! Yn un ar bymtheg oed, roedd y dymuniad hwn i helpu pobl wedi tyfu cymaint ynof nes i'r cwestiwn mawr godi: a ddylwn i ddilyn gyrfa mewn gwaith cymdeithasol? Fodd bynnag, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, cefais fy hun yn y brifysgol yn astudio Hanes. Fe wnes i gyfarfod Llŷr, priodais yn bedair ar hugain oed, a dechrau gweithio ym maes teledu a marchnata!

Ble roedd fy awydd i helpu pobl wedi mynd? Wel, nid oedd wedi diflannu, oherwydd bob tro y gwelwn hysbysebion am ofalwyr maeth, roedd rhywbeth yn deffro ynof.

Roeddwn yn dri deg oed ac roedd gennym ddau fachgen pan gyfarfûm ag Iesu – profiad a drawsnewidiodd fy mywyd yn llwyr. Cyfarfu Llŷr ag Ef ychydig fisoedd yn ddiweddarach – a newidiodd cyfeiriad ein bywydau'n llwyr.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, cawsom fachgen arall. Tyfodd fy awydd dwfn i fod yn ffyddlon i Dduw, ac unwaith eto daeth y dymuniad i helpu eraill i'r amlwg.

Roedd gennym freuddwydion: babi arall, tŷ mwy i fod yn gartref i'n teulu oedd yn tyfu, a breuddwyd Llŷr oedd byw yng ngogledd Cymru – rhywbeth nad oedd wir yn opsiwn gan fy mod mor agos at fy nheulu, ac roedd Llŷr yn gwybod hynny. Fodd bynnag, un diwrnod dywedais wrth Llŷr, "Fe wna i symud i ogledd Cymru os byddwn ni'n byw yn Llanuwchllyn!" Yn rhyfeddol, yr union ddiwrnod hwnnw, yn rhagluniaeth Duw, roedd Llŷr wedi bod yn edrych ar dai ar werth yn Llanuwchllyn o bob man! Arwydd sicr.

Tua'r un adeg, fe wnes i gais am swydd yng Ngholeg y Bala; cefais gynnig y swydd ac fe'i derbyniais. Roeddwn yn feichiog eto, heb obaith gwerthu ein tŷ, a heb unman i fyw yn y gogledd – ac eto fe dderbyniais y swydd! Roedd gennyf heddwch rhyfeddol ynghylch y cyfan.

Yn fuan wedyn, ym mis Gorffennaf, yn wyrthiol fe werthwyd ein tŷ, a daeth tŷ ar gael yn Llanuwchllyn. Symudom ni yno ym mis Awst a dechreuais weithio yng Ngholeg y Bala ym mis Medi – llaw ryfeddol Duw ar waith!

Dechreuodd arwyddion ynglŷn â maethu dynnu ar fy nghalon unwaith eto. Cefais fy hun yn gweithio gyda gofalwr maeth angerddol iawn, sef Siân, a darllenais y llyfr *Home for Good*. Dechreuais sylweddoli na fyddai ein bywydau byth yn berffaith i faethu – yr unig beth oedd ei angen oedd bod yn ffyddlon i Dduw. Felly, es ati i drafod y syniad gyda Llŷr. Roedd yn ansicr i ddechrau, ond ar ôl trafod y posibilrwydd o ddechrau gyda gofal am ysbaid yn unig, cynhesodd at y syniad yn fawr! Roedd y bechgyn wrth eu bodd hefyd; felly, fe ddechreuom ni'r broses gyda Thîm Maethu Awdurdod Lleol Gwynedd.

I ddechrau, fe wnaethom ni lenwi'r bwlch "modryb ac ewythr" i rai plant lleol, gan roi rhywfaint o sefydlogrwydd iddynt wrth inni ddod i adnabod ein gilydd. Fe ddechreuom ni sylwi ar ein bechgyn yn dysgu rhannu ac aberthu. Ar noson olaf pob arhosiad byddem i gyd yn eistedd mewn cylch, yn trafod ein hoff ran o'r gwyliau, ac yn rhoi anrheg i bob un o'r plant.

Yna daeth y cyfnod clo. Merch fach fywiog, lawn egni ddaeth atom ar gyfer ein lleoliad brys cyntaf. Roedd yn brofiad heriol iawn gan na allai hi weld neb

(parhad ar y dudalen nesaf)

Gwaith yr elusen Gristnogol Home for Good

(parhad o dudalen 6)

heblaw ni, ond arhosodd gyda ni am wyth wythnos. Er mor anodd oedd hi, roedd bwlch gwirioneddol pan adawodd hi; roedden ni'n galaru ar ei hôl, ond cadarnhaodd y profiad y gallem ofalu am blant yn y tymor hir.

Felly, ym mis Mehefin 2020, daeth merch naw oed i fyw gyda ni am ddwy flynedd. Fel ym mhob perthynas, roedd cymysgedd o adegau llawen a heriol. Ond hyd yn oed yn yr adegau anodd, trwy ras Duw, roeddwn bob amser yn gallu dweud wrthi faint roeddwn yn ei charu, a chefais y fraint anhygoel o gael fy ngalw'n Mami Maeth ganddi.

Roeddem wedi dechrau dysgu, yn ogystal â phrofi'r broses o alaru. Er bod adegau heriol, fe sylweddolom ni ein bod wedi tyfu i garu'r merched yn fawr iawn ac yn eu colli pan fydden nhw'n gadael. Rydym yn dal mewn cysylltiad â nhw, sy'n werthfawr iawn.

Bellach mae gennym fachgen bach ar leoliad hirdymor, un a fu'n aros am beth amser i gael ei leoli oherwydd ei anghenion amrywiol. Mae ei gael gyda ni wedi cadarnhau ein harfer o faethu fel teulu; mae'r bechgyn yn dwlu arno ac mae'n rhan annatod o'n teulu.

Mae ein grŵp gofalwyr maeth yn y Bala wedi bod yn gefn mawr i ni drwy gydol ein taith. Yn y cyfnodau da a'r cyfnodau heriol fel ei gilydd, rydym yno i'n gilydd, yn helpu ein gilydd i ffynnu wrth i ni ofalu am y plant hyn a'u caru.

Lansio Ap Gweddi Newydd EBC

Mae paratoadau'n cael eu gwneud i lansio Ap Gweddi Newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru nos Iau, 5 Mawrth, am 7 o'r gloch. Yn addas iawn, bydd y lansiad yn digwydd yn ystod cyfarfod gweddi cenedlaethol misol yr enwad dros Zoom ym mis Mawrth wrth inni barhau i gofio a dathlu Gŵyl Ddewi a myfyrio ar effaith gweddïau Cristnogion dros y canrifoedd ar ein gwlad.

Cynlluniwyd yr ap i gefnogi'r rhai fydd yn ei ddefnyddio yn eu bywyd gweddi eu hunain, ym mywyd gweddi'r eglwys yn lleol ac er mwyn codi gweddi dros y gwaith yn ehangach. Bydd yr ap yn gallu anfon gwybodaeth a phwyntiau gweddi at bawb sy'n ei ddefnyddio am weithgaredd yr eglwys yn genedlaethol, gan dynnu sylw at ddigwyddiadau i ddod ac at faterion gweddi.

Bydd pawb sy'n ei ddefnyddio'n gallu cael mynediad at yr hyn sy'n cael ei restru o dan eu henaduriaeth neu eu hardal eu hunain ac ardaloedd eraill yn yr un modd. Bydd hyn yn eu galluogi i weddïo dros faterion yn eu hardal eu hunain neu mewn ardaloedd eraill y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddyn nhw.

Mae'r ap hefyd yn cynnig dyddiadur gweddi bersonol y gallwch ei greu, a fydd yn weladwy i chi yn unig. Yn olaf, mae'r ap newydd yn cynnig newyddion a gwybodaeth a dolenni at YouTube ac adnoddau eraill.

Mae manylion ymuno yn y cyfarfod i'w cael uchod neu ar wefan yr enwad: Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cytûn: Adnoddau Etholiad

Mae Cytûn wedi paratoi briff dwyieithog newydd i helpu eglwysi, cyrff aelodol a'r gymuned ffydd ehangach i ddeall ac ymgysylltu â'r **newidiadau sylweddol i etholiad Senedd Cymru 2026**. Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan: Etholiad 2026 – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales

Cyfarfod Blynyddol Senana UBC

'*Gadewch i'r rhai mae'r ARGLWYDD wedi'u gollwng yn rhydd ddweud hyn...*' Salm 107:2a

Bydd cyfarfod cyffredinol blynyddol Senana yn cael ei gynnal ar 6 Mai am 2 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser, Heol Feurig, Dolgellau, LL40 1LN.

Ar ôl y gwasanaeth / cyfarfod, bydd te yn y Llyfrgell Rydd. Pris te: £6

Cysylltwch â Hazel Williams Jones cyn 24 Ebrill i archebu: hazelwilliamsjones@gmail.com neu 07879 282258

26 Erw Goch, Rhuthun, LL15 1RR

Cwrs Llwybrau: Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

Ydych chi'n teimlo galwad i bregethu – neu'n adnabod rhywun sydd yn teimlo'r alwad?

Mae'r modiwl Llwybrau i Bregethu (Pathways into Preaching) gan Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn gyfle gwych i archwilio a thyfu ym maes pregethu. P'un a ydych chi'n camu i'r pulpud am y tro cyntaf, neu am wella eich sgiliau pregethu, bydd y modiwl ymarferol a rhyngweithiol hwn yn helpu i gynyddu eich hyder wrth baratoi a chyflwyno pregeth.

Dau leoliad
Caerdydd – Coleg y Bedyddwyr
Bangor – Eglwys y Bedyddwyr, Penrallt
Dyddiadau: 7 Mawrth a 18 Ebrill

Wedi'i arwain gan bregethwyr ac arweinwyr profiadol, mae'r rhan hon o'r Cwrs Llwybrau wedi'i dylunio i'ch arfogi a'ch annog yn eich taith ffydd a gweinidogaeth. Gallwch fynegi diddordeb drwy gysylltu â jmd@cbc.cymru

Cofion a chydymdeimlad

Anfonwn ein cofion gorau a'n gweddi am wellhad at y Parch. Eric Greene, y Bala, sy'n parhau yn yr Ysbyty yn Lerpwl wedi anffawd yno.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Norman Closs-Parry o Garmel, Treffynnon, a fu farw'n ddiweddar. Bu Norman yn gyfrifol am golofn farddol yn *Y Goleuad* yn nyddiau golygyddiaeth John Gruffydd Jones, a bu'n gyfrannwr cyson gydag englyn a cherdd bwrpasol i *Cenn@d* ers y dechrau.

Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, ger Aberteifi, 1–8 Awst 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 7 o'r gloch nos Iau, 5 Mawrth, yng Nghapel Mair, Aberteifi**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar gyrion tref Aberteifi, a hynny rhwng 1 a 8 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd y maes rai milltiroedd i'r de o Aberteifi, a bydd gennym ninnau ein gofod arferol o ddeg uned. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr eisteddfod. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 20–23 Gorffennaf 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 12.30 o'r gloch bnawn Mawrth, 3 Mawrth 2026, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe yn Llanelwedd**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod y sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir y sioe yn ôl yr arfer yn Llanelwedd, ar gyrion Llanfair ym Muallt, rhwng 20 a 23 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/uned yno (uned rhif D-413) i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn darparu te a choffi; dewch â'ch cinio gyda chi wrth i ni ddechrau ar ein trafodaethau.

Am fanylion, pellach cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, Cae Sioe Môn, 23–9 Mai 2026: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul **am 7 o'r gloch nos Lun, 2 Mawrth 2026, yng Nghapel Lôn y Felin, Llangefni** (ynghanol y dref, wrth ymyl siop Iceland a maes parcio mawr canol y dref), i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Môn eleni. Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 23 a 29 Mai ar Gae Sioe Môn, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno. **Noder y newid yn y trefniadau eleni: bydd yr Eisteddfod yn dechrau ar fore Sadwrn ac yn cael ei chynnal am saith diwrnod tan y nos Wener ddilynol.**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y trefniadau. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru